

Diweddariad am Rhestrau Chwarae Hwb

Yn dilyn adborth o ymchwil defnyddwyr, mae gwelliannau'n cael eu gwneud i blatfform Hwb er mwyn cefnogi addysgu a dysgu yn well. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Rhestrau Chwarae Hwb bellach wedi eu tynnu'n ôl.

Ers dydd Gwener 17 Gorffennaf 2026, nid yw'n bosibl creu rhestrau chwarae newydd mwyach. Bydd y rhestrau chwarae presennol yn parhau i fod ar gael, ond ni fyddwch yn gallu eu golygu na'u newid. Sylwer, mae hyn ond yn berthnasol i restrau chwarae rydych chi wedi'u creu. Nid yw'r broses hon yn effeithio ar restrau chwarae sy'n bodoli o fewn adnoddau byw ar Hwb fel Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Mae perchnogion rhestrau chwarae yn gyfrifol am allforio neu ail-greu unrhyw gynnwys o'u rhestrau chwarae presennol y gallen nhw fod angen parhau i'w defnyddio.

Camau gweithredu sydd angen eu cymryd erbyn hanner tymor mis Hydref 2026.

- Nodwch unrhyw restrau chwarae rydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd sydd angen eu cadw
- Copïwch neu ail-grëwch gynnwys allweddol mewn fformat amgen (e.e. Google Slides neu Microsoft PowerPoint)
- Storiwch adnoddau yn OneDrive neu Google Drive er mwyn parhau i gael mynediad iddynt

Offer amgen sydd ar gael drwy Hwb

- 1) Microsoft PowerPoint
- 2) Google Slides
- 3) Tudalennau gwe yn Adobe Express

Cymorth pellach ar gyfer offer amgen

- [Dysgwch fwy am Google Slides](#)
- [Dechrau arni gyda PowerPoint](#)
- [Ail-greu Rhestrau Chwarae Hwb gydag Adobe Express](#)

Pethau i'w hystyried

- Mae cynnwys PowerPoint, Slides neu Adobe yn cael ei gysylltu neu ei ymgorffori, yn hytrach na'i reoli'n ganolog o fewn Hwb.
- Gellir rhannu cyflwyniadau trwy ddolen neu drwy Microsoft Teams neu Google Classroom. Gellir gosod dolenni i fod yn rhai 'darllen yn unig' fel na all dysgwyr a chydweithwyr olygu'r cynnwys.
- Ar hyn o bryd, mae rhai ysgolion ac awdurdodau lleol yn rhannu Rhestrau Chwarae Hwb yn Aseiniadau Hwb. Nid yw [Aseiniadau Hwb](#) bellach ar gael. Gweler diweddariad Aseiniadau Hwb am ragor o wybodaeth.

Cymorth gan Hwb

Os oes angen cymorth arnoch chi, cysylltwch â

Hwb.Datblygiadau@llyw.cymru neu

Hwb.Development@gov.wales